**AIL AGOR YSGOL**

Gobeithio'n wir eich bod yn parhau i gadw'n iach a diogel.

Mae nifer dda iawn eisoes wedi ymateb i'r holiadur – gofynnwn yn garedig i chi wneud pob ymdrech i'w lenwi erbyn hanner dydd fory, Mehefin 9fed. os gwelwch yn dda – os nad ydych eisoes wedi gwneud. Rydym yn llwyr sylweddoli ei bod yn anodd gwneud penderfyniad, a hyd nes y byddwn wedi derbyn y canllawiau gan Lywodraeth Cymru, mae'n anodd i ninnau ddweud sut y bydd y cyfan yn cael ei weithredu. Mae'r canllawiau i ddod i law ddydd Mercher yma. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar wahanol opsiynau. Pwysleisir eto mai prif bwrpas yr holiadur yw i gael syniad o'r niferoedd a'r teimlad cyffredinol, fel canllaw ar gyfer y ffordd ymlaen.

Ddrwg gen i am fod mor amwys ar y funud, ond fe allaf rannu rhai pwyntiau cyffredinol o wybodaeth efo chi, sef fel a ganlyn:

- Bydd bywyd ysgol yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd cyn i ni orfod cau.
- Mi fydd y plant yn dod i'r ysgol bedair gwaith yn ystod y mis.
- Oherwydd niferoedd uchel pob blwyddyn ysgol, ni fydd yn ymarferol bosib cael plant o fewn teuluoedd yn yr ysgol i mewn yr un pryd.
- Yn unol â'r canllawiau ymbellhau cymdeithasol, grwpiau bach (hyd at 8 – Blwyddyn 2,3,4,5 a 6) a (hyd at 12 - Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1) fydd yn ymhob pod/dosbarth ar y tro.
- Bydd yr amseroedd cyrraedd a gadael i bob grŵp yn amrywio.
- Bydd yr Hwb Gofal i blant gweithwyr allweddol yn weithredol yn yr ysgol – ac ni all plant sy'n mynychu hwnnw fynd i'r pod yn y dosbarth – h.y. ni all plentyn fynychu'r ddau leoliad yn ystod y mis.
- Ni fydd clybiau Ben Bore nac ar Ôl Ysgol yn weithredol o Fehefin 29ain. i Orffennaf 24ain.

Byddaf mewn cysylltiad â chi eto pan fydd mwy o ganllawiau wedi'n cyrraedd o Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg lleol.

Gwn y gallwn ddibynnu ar eich cyd weithrediad yn ystod y cyfnod dyrys hwn, fel bob amser.

Cofion caredig atoch i gyd,

Ll.M.Jones (Miss)

(Prifathrawes)